# CLYCHAU'R GOG



## 1. STATWS PRESENNOL

### 1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| Rhyngwladol | Dim yn wybyddus |
| DU a Chymru | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Adrannau 13[a])<br>SoCC[b] |
| Gwynedd | Dim yn wybyddus |

### 1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Mae Clychau'r gog i'w canfod drwy orllewin Ewrop, yn Ffrainc, yr Iseldiroedd a Gwlad Belg yn bennaf, ac maent wedi ymgynefino yn nghanol Ewrop. Mae Bwtsiasen y Gog[c] yn rywogaeth 'Iwerydd' heb fod yn cyrraedd ymhellach tua'r dwyrain na Gorllewin yr Almaen (fel rhywogaeth frodorol) ac nid yw'n bodoli o gwbl yn Sgandinafia.

Mae Clychau'r gog wedi eu dosbarthu yn eang ac yn gyffredin drwy'r Deyrnas Gyfunol, ac i'w canfod yn eang heblaw yn Ynysoedd Erch a Shetland. Mae Clychau'r gog o bwysigrwydd rhyngwladol yn y Deyrnas Gyfunol gan fod rhwng 25-49% o boblogaeth y byd yma.

### 1.3 Statws yng Ngwynedd[d]

Mae Clychau'r gog yn niferus yng Ngwynedd, ac yn arbennig o amlwg mewn coetiroedd derw tir uchel a hen a/neu wrychoedd sydd â chyfoeth o rywogaethau fel Gwarchodfa Natur Leol Parc y Borth, Gwarchodfa Natur Leol Coed Dinorwig a rhan o Barc Gwledig Padarn, sydd â rhywfaint o'r clystyrau mwyaf anhygoel yn y DU.

## 2 FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH HON YNG NGWYNEDD[e]

- Colli cynefin gan gynnwys coetiroedd a gwrychoedd
- Gall dirywiad yn nulliau rheoli coetiroedd traddodiadol arwain at gysgodi clychau'r gog.
- Meddylfryd 'parciau twt' lle caiff clychau'r gog eu lleihau a'u gwanhau wrth i'r glaswellt gael ei dorri'n rheolaidd, yn enwedig yn ystod y cyfnod blodeuo.
- Difrod ffisegol i'r dail a'r bylbiau wrth i dda byw gerdded drostynt neu bori. Ni ellir amnewid y dail gan eu bod wedi eu rhagffurfio yn y bylb yn ystod y flwyddyn flaenorol, gan olygu bod unrhyw niwed ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod tyfu yn niweidiol.
- Pobl yn hel clychau'r gog sy'n gallu gwanhau clystyrau
- Ymelwa anghyfreithlon ar y bylbiau i amcanion masnachol
- Croesi efo clychau'r gog Sbaeneg sy'n gyffredin mewn gerddi.

[a] 1 b, 2a+2b - "gwerthu" yn unig
[b] Rhestr y DG o Rywogaethau o Bryder Cadwraeth
[c] Hyacinthoides non-scripta
[d] Yn y ddogfen hon, mae'r term "Gwynedd" yn cyfeirio at fannau sydd y tu allan i ardal Parc Cenedlaethol Eryri, heblaw lle nodir fel arall
[e] Hefyd, gweler yr CGCs cysylltiedig am ffactorau mwy cyffredinol sy'n effeithio ar gynefinoedd y rhywogaeth hon

## 3. CGR / CGC CYSYLLTIEDIG GWYNEDD

Coetiroedd derw tir uchel, Coed ynn cymysg tir uchel, Coetiroedd prysgoed, Ymylon cae âr, Coed Hynafol, Porfeydd coed tir isel a pharciau, Cloddiau, Gwrychoedd, Clogwyni a llethrau morol, Coridorau cludiant,

## 4. CAMAU GWEITHREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

### 4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Gellir canfod poblogaethau o glychau'r gog mewn ardaloedd yng Ngwynedd a ddynodir fel safleoedd Bywyd Gwyllt posibl, Gwarchodfeydd Natur Lleol (ee Parc Dudley a Pharc y Borth), SoDdGA (e.e. Coed Dinorwig, Coed Elernion a Talhenbont), GNG neu ymgeisydd ACA.
- Caiff nifer o goetiroedd pwysig eu diogelu gan Orchmynion Gwarchod Coed.
- Mae'r Rheoliadau Gwrychoedd wedi cynnwys gwrychoedd yn y broses gynllunio gan sicrhau bod nifer o wrychoedd wedi eu cadw.

### 4.2 Rheolaeth a rhaglenni gweithredu

- Dim yn wybyddus

### 4.3 Arolygon, ymchwil a monitro

- Yn ystod 2003, trefnodd Plantlife arolwg gwirfoddol genedlaethol ar glychau'r gog a'u cynefinoedd, nid yw'r canlyniadau ar gael ar hyn o bryd.

## 5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. Sefydlu statws presennol a dosbarthiad clychau'r gog yng Ngwynedd
2. Diogelu, cynnal a gwella'r poblogaethau presennol o glychau'r gog a'u cynefinoedd cysylltiedig.
3. Adfer a gwella safleoedd addas eraill er mwyn cynyddu'r boblogaeth clychau'r gog a'u dosbarthiad.

## 6. CAMAU GWEITHREDU BWRIEDIG

| Cod | Cam Gweithredu | Partner(iaid)[f] |
|---|---|---|
| **Polisi a deddfwriaeth** | | |
| 1 | Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau bod datblygiadau mewn lleoliadau sensitif yn gydnaws â gwarchod clychau'r gog<br>TARGED/AMSERLEN: cyfredol | **CG**, partneriaid perthnasol |
| 2 | Ystyried dynodi'r holl safleoedd clychau'r gog (gan gynnwys coetiroedd hynafol) fel Safleoedd Bywyd Gwyllt.<br>TARGED/AMSERLEN: cyfredol | **CG**, CBNGG' plantlife |
| **Rheoli a diogelu rhywogaethau / cynefinoedd** | | |
| 3 | Hyrwyddo a chefnogi cynlluniau grantiau gan gynnwys Tir Gofal, AAS Llŷn a / neu defnydio gytundebau rheoli lle bo'n briodol i sicrhau bod safleoedd gyda phoblogaethau sefydledig o glychau'r gog yn cael eu rheoli mewn modd ffafriol, yn ogystal â mannau gerllaw a allai ddarparu cysylltiadau rhwng poblogaethau wedi eu hynysu, gan ystyried anghenion rhywogaethau allweddol cysylltiedig eraill<br>TARGED/AMSERLEN:i'w osod, cyfredol | **CCGC**, AACChG, CC, GCFBG, CG, CyT, YG, Plantlife, UCF, UAC |

[f] Dangosir y partner arweiniol ar gyfer y cam gweithredu mewn teip du trwm, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Sicrhau bod presenoldeb posibl a gofynion rheoli clychau'r gog yn cael eu hystyried mewn unrhyw gynlluniau rheoli neu gynlluniau grant perthnasol (gan gynnwys cynlluniau rheoli SoDdGA, CRCCs, CCC, Tir Gofal, AAS)<br>TARGED/AMSERLEN: cyfredol | **CCGC**, AACChG CCth, CG |
| 5 | Parhau i reoli'r holl safleoedd clychau'r gog sy'n berchen i CG mewn modd ymatebol<br>TARGED/AMSERLEN: cyfredol | **CG** |
| **Cynghori** | | |
| | Dim wedi eu hadnabod | |
| **Arolygon, ymchwil a monitor** | | |
| | Dim wedi eu hadnabod | |
| **Cyfathrebiadau a chyhoeddusrwydd** | | |
| 6 | Parhau i godi ymwybyddiaeth o'r difrod y gall da byw ei wneud i goetiroedd a phlanhigion cysylltiedig fel clychau'r gog, a pherswadio pobl drwy fynd i sioeau a digwyddiadau amaethyddol lleol i beidio â hel y planhigion hyn na'u dadwreiddio, gan greu cyhoeddusrwydd yn lleol a chynhyrchu defnyddiau addysg/cynghori.<br>TARGED/AMSERLEN: cyfredol | **CG**, CCGC, CBNGG |

## 7 PARTNERIAID A CHYFLEOEDD

### 7.1 Partner Arweiniol Cyffredinol ar gyfer CGR

Cyngor Gwynedd (CG)

### 7.2 Partneriaid allweddol

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Adaran Amgylchedd Cynllunio a Chefn Gwlad (AACChG)

Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (UCF)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Comisiwn Coedwigaeth (CCth)

Grwp Cynghori Ffermio a Bywyd Gwyllt (GCFBG)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

Cymdethas Byd Natur Gogledd Cymru (CGBNGG)

Coed Cymru (CC)

Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CyT)

Plantlife

### 7.3 Cyfleoedd

Undebau amaeth, perchenogion a rheolwyr tir, gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol lleol

## 8 DIOLCHIADAU

Prif Awdur: Nerys Davies (CG)
Ymgynghori: Nigel Brown

## 9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, GNL: Gwarchodfa Natur Leol, ACA: Ardal Cadwraeth Arbennig, CGR Cynllun Gweithredu Rhywogaeth, AGA: Ardal Gwarchodaeth Arbennig, SoDdGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, CRCC: Cynlluniau Rheolaeth Coedtiroedd Cynhenid, AAS: Ardal Amgylcheddol Sensitif, CCC: Cynlln Grant Coetiroedd, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefin, PCB: Prifysgol Cymru Bangor

Fersiwn 1, 2004